

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A487
(Bow Street, Ceredigion) (Terfyn
Cyflymder 20 mya Rhan-amser)
2018

The A487 Trunk Road (Bow Street,
Ceredigion) (Part-time 20 mph
Speed Limit) Order 2018

Gwnaed 31 Gorffennaf 2018

Made 31 July 2018

Yn dod i rym 3 Awst 2018

Coming into force 3 August 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A487, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1)(c), (1A) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 Trunk Road, in exercise of the powers conferred upon them by section 84(1)(c), (1A) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1) and after consultation with the Chief Officer of Dyfed-Powys Police, make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Bow Street, Ceredigion) (Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2018 a daw i rym ar 3 Awst 2018.

1. The title of this Order is the A487 Trunk Road (Bow Street, Ceredigion) (Part-time 20 mph Speed Limit) Order 2018 and it comes into force on 3 August 2018.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("exempted vehicle") yw:

"exempted vehicle" ("cerbyd esempt") means:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2);

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Trosedd Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Trosedd a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor; ac

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd yn Bow Street, Ceredigion sy'n ymestyn o bwynt 16 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Maes Ceiro hyd at bwynt 173 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Chaer Odyn.

Cymhwyso

4. Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y'i dangosir gan arwyddion traffig.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

31 Gorffennaf 2018

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director; and

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A487 Fishguard to Bangor Trunk Road.

Restriction

3. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 20 miles per hour on the length of the trunk road at Bow Street, Ceredigion that extends from a point 16 metres north of the centre-point of its junction with Maes Ceiro to a point 173 metres north of the centre-point of its junction with Caer Odyn.

Application

4. The restriction in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

31 July 2018

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (BOW STREET, CEREDIGION) (TERFYN CYFLYMDER 20 MYA RHAN-AMSER) 2018

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adran 84(1)(c), (1A) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sy'n dod i rym ar 3 Awst 2018.

Effaith y Gorchymyn yw cyflwyno terfyn cyflymder 20 mya rhan-amser ar y darn o gefnffordd yr A487 yn Bow Street, Ceredigion sy'n ymestyn o bwynt 16 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Maes Ceiro hyd at bwynt 173 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Chaer Odyn er mwyn gostwng cyflymder traffig a hybu diogelwch cerddwyr ger Ysgol Gynradd Rhydypennau. Dim ond am gyfnodau cyfyngedig o'r dydd yn ystod y tymor ysgol y disgwylir i'r terfyn cyflymder is hwn fod yn gymwys. Bydd y terfyn cyflymder 30 mya presennol yn gymwys ar bob adeg arall.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 1 Awst 2018 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol yn Garej Rhydypennau, Bow Street, Aberystwyth SY24 5AA neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1342790.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchymynion traffig parhaol/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

THE A487 TRUNK ROAD (BOW STREET, CEREDIGION) (PART-TIME 20 MPH SPEED LIMIT) ORDER 2018

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under section 84(1)(c), (1A) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 3 August 2018.

The effect of the Order is to introduce a part-time 20 mph speed limit on the length of the A487 trunk road at Bow Street, Ceredigion that extends from a point 16 metres north of the centre-point of its junction with Maes Ceiro to a point 173 metres north of the centre-point of its junction with Caer Odyn in order to reduce the speed of traffic and promote pedestrian safety near Ysgol Gynradd Rhydypennau. This reduced speed limit is only expected to apply for limited periods of the day during school term time. The existing 30 mph speed limit will apply at all other times.

During a period of 6 weeks from 1 August 2018 a copy of the Order and plan may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Rhydypennau Garage, Bow Street, Aberystwyth SY24 5AA or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1342790.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders/ 2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government